

Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

Adroddiad Blynyddol

2019 - 2020

Craffu yn Sir Gaerfyrddin

sirgar.llyw.cymru

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



Cynnwys

1. Cyflwyniad	4
2. Trosolwg o waith y Pwyllgor 2019/20.....	4
2.1 Nifer y Cyfarfodydd	4
2.2 Y Flaenraglen Waith.....	4
2.3 Monitro Perfformiad / Materion Strategol	5
2.4 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf	6
2.5 Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion.....	7
2.6 Adroddiad Blynyddol ynghylch Diogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) (2018-19).....	7
2.7 Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru o Wasanaethau Oedolion Hŷn.....	7
2.8 Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd – Adroddiad Blynyddol 2018/19.....	7
2.9 Rhaglenni Trawsnewid a Gyllidir gan Lywodraeth Cymru yn Sir Gaerfyrddin	7
2.10 Gwasanaethau a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc sydd â Phroblemau Iechyd Meddwl.....	7
2.11 Yr Adroddiadau a'r Wybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdanynt.....	8
3. Gweithgarwch Craffu Arall	8
3.1 Gorchwyl a Gorffen	8
3.2 Sesiynau Datblygu	9
4. Heriau	9
5. Gwaith yn y Dyfodol.....	10
6. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu	10
7. Presenoldeb	11

Rhagair y Cadeirydd



A ninnau ar ddiwedd Blwyddyn y Cyngor arall, mae'n bleser gennyf fel Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2019 - 2020. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

I ddechrau, hoffwn ddiolch i holl aelodau'r pwyllgor am fynychu'n rheolaidd ac am eu hymroddiad i fynd i'r afael â llawer o heriau sy'n wynebu Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Dyma gyfnod heriol iawn ac fel pwyllgor, hoffem ddiolch i'n holl swyddogion a staff am eu hymroddiad a'u gwaith caled i sicrhau bod trigolion Sir Gaerfyrddin, yn enwedig yr henoed a'r rhai sy'n agored i niwed, yn derbyn y gofal gorau posibl.

Mae ein Pwyllgor Craffu yn parhau i drefnu rhag-gyfarfodydd cyn cyfarfod llawn y Pwyllgor. Mae'r rhag-gyfarfodydd, sy'n anffurfiol, wedi bod yn ddefnyddiol o ran delio â mân ymholiadau, gan ganiatáu mwy o amser ar gyfer craffu manwl ar eitemau ar yr agenda yn ystod y cyfarfod ei hun.

Mewn ymgynghoriad â swyddogion, mae paratoi'r Flaenraglen Waith a'i monitro yn agwedd bwysig ar gylch gwaith y Pwyllgor. Mae gan bob aelod fewnbwn, adolygir y Flaenraglen waith yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn ac ychwanegir eitemau yn ôl yr angen.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn pwysleisio'r angen i weithio mewn partneriaeth. Mae hyn bob amser wedi bod yn bwysig iawn o fewn Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ac rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle i weithio gyda'n partneriaid, yn enwedig Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a llawer iawn o Sefydliadau Gwirfoddol yn Sir Gaerfyrddin sy'n darparu cefnogaeth amhrisiadwy i'r preswylwyr yn ein Sir. Trwy weithio gyda'n gilydd, gallwn gyflawni llawer mwy, wrth i bob un ohonom wneud ein gorau glas i gyflawni'r nod o wella ein gwasanaethau gofal cymdeithasol barhaus.

Yn ystod y flwyddyn, cwblhaodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ei adolygiad yn ymwneud ag 'Effaith Unigrwydd ac Arwahanrwydd yn Sir Gaerfyrddin'. Cyflwynwyd argymhellion yr adolygiad i'r Bwrdd Gweithredol ym mis Medi ac fe'i derbyniwyd. Roedd y gwaith o roi'r argymhellion ar waith wedi'i ohirio gan fod Neil Edwards, Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Integredig wedi gadael. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i Neil am ei holl waith a dymuno'r gorau iddo ar gyfer dyfodol. Y pwnc a ddewiswyd i'w adolygu gan saith aelod trawsbleidiol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer 2019 - 2020 oedd "Ymyrraeth Gynnar ac Atal Hunanladdiad yn Sir Gaerfyrddin". Roedd ymarfer

cwmpasu eisoes wedi'i gwblhau a daeth gwybodaeth i law gan Gymdeithas y Samariaid, "Sefydliad Jac Lewis" a'r "Noddfa Min Nos".

Yn ystod 2019 - 2020, roedd sesiynau datblygu aelodau yn cynnwys "Bywydau Bodlon", "Rhagnodi Cymdeithasol" a Gwasanaeth Gartref o'r Ysbyty y Groes Goch. Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd ystyriaeth i ystod eang o bynciau ac adroddiadau, gan gynnwys adolygiadau ynghylch Adroddiadau Cyllideb Refeniw a Chyfalaf, Trefniadau Sicrwydd Ansawdd, Canmoliaeth a Chwynion Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Diogelu Oedolion ac Oedi wrth Drosglwyddo Gofal. Wrth ystyried yr adroddiadau manwl hyn, roedd aelodau'n gallu gwerthfawrogi gwaith caled ac ymroddiad ein staff lechyd a Gofal Cymdeithasol.

Roedd aelodau'r pwyllgor yn falch dros ben o gael gwybod ym mis Tachwedd bod y cais i Lywodraeth Cymru am gyllid o'r Gronfa Trawsnewid wedi bod yn llwyddiannus a diolchodd yr aelodau i'r swyddogion dan sylw am gael yr arian ar ran Sir Gaerfyrddin. Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad yn ymwneud â'r tair rhaglen i'w gyflawni: .- "Gofal Rhagweithiol trwy Gymorth Technoleg", "Integreiddio Cyflym a Chyson" a "Chreu Cysylltiadau i Bawb"

Hoffwn ddiolch yn fawr i'r Swyddogion sydd wedi bod yn bresennol yn y cyfarfodydd Craffu. Diolch ichi am eich arweiniad, eich cyngor arbenigol, ac am eich cyflwyniadau addysgiadol. Diolch yn fawr iawn i'r Cynghorydd Ieuan Wyn Davies, fy Is-gadeirydd am y ddwy flynedd ddiwethaf, am ei gymorth gwerthfawr a diolch yn arbennig i'r Cynghorydd Jane Tremlett, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac lechyd am fynychu a chefnogi cyfarfodydd ein Pwyllgor Craffu yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn. Diolch yn fawr iawn i'n Swyddog Cymorth Democraataidd, Emma Bryer, am ei harweiniad a'i chefnogaeth. Mae Emma yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr fel ein Swyddog Cymorth, am ei gwaith paratoi ymlaen llaw ac am sicrhau bod y cyfarfodydd Craffu yn rhedeg yn hwylus.

Ar ddechrau blwyddyn y Cyngor, ym mis Mai 2019, ni fyddai unrhyw un wedi rhagweld sut y byddai'r flwyddyn yn dirwyn i ben - pandemig ledled y byd a Covid 19 yn gorfodi'r Llywodraeth i gyflwyno cyfyngiadau symud. Mae bywyd wedi newid; mae rhan fwyaf o staff wedi bod yn gweithio gartref ac mae llawer wedi cael eu had-leoli i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu cynnal. Mae'r angen i ofalu am yr henoed a'r rhai sy'n agored i niwed yn bwysicach heddiw nag erioed. Mae'n rhaid diolch a chanmol ein swyddogion a gweithwyr y Cyngor am eu gwytnwch a'u brwdfrydedd i wneud pob dim o fewn eu gallu dros y rheiny sydd mewn angen. I bawb sydd wedi bod yn barod i fynd yr ail filltir yn ystod y cyfnod anodd hwn - **"Diolch a Da iawn"**.

Y Cynghorydd Gwyneth Thomas

Cadeirydd y Pwyllgor Craffu – Gofal Cymdeithasol ac lechyd

1. Cyflwyniad

Mae'r swyddogaeth graffu yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu y Cyngor Sir a'i broses o wneud penderfyniadau. Er nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, mae Craffu yn fwyaf effeithiol pan fydd yn manteisio ar y potensial i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor a chyrff partner sy'n effeithio ar y Sir, a llywio'r penderfyniadau hynny.

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Bwyllgorau Craffu "*baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol.*"

Prif nod yr adroddiad yw pwysleisio'r gwaith sydd wedi'i wneud gan y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn ystod 2019/20. Ei nod yw darparu cyfle i Aelodau i ystyried llwyddiannau'r flwyddyn a nodi beth a weithiodd yn dda ac ymhle y gellid gwneud gwelliannau. Mae'r dadansoddiad hwn yn hanfodol i ddatblygu'r broses graffu. Yn ogystal, efallai y bydd yr adroddiad hwn yn helpu i hwyluso trafodaethau ar eitemau y gellid eu nodi i'w cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Cadeirydd y Pwyllgor yw'r Cynghorydd Gwyneth Thomas ac mae'n cynnwys 14 o Aelodau Etholedig. Darperir cymorth gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion eraill y Cyngor pan fo angen.

2. Trosolwg o waith y Pwyllgor 2019/20

2.1 Nifer y Cyfarfodydd

Cynhaliodd y Pwyllgor Craffu 6 chyfarfod yn ogystal â chyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd yn ystod blwyddyn y cyngor 2019/20. Canslwyd dau gyfarfod yn ystod y flwyddyn.

Ar gais Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant, canslwyd y cyfarfod ar y cyd a oedd fod i gael ei gynnal ym mis Gorffennaf. Fodd bynnag, cafodd yr adroddiad sef "Adroddiad Blynyddol Drafft Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 18/19" ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf.

Cafodd cyfarfod ymgynghori cyllideb mis Rhagfyr ei ganslo oherwydd yr oedi o ran derbyn gwybodaeth am setliad y gyllideb gan Lywodraeth Cymru. Dosbarthwyd adroddiadau ymgynghori ar y gyllideb i'r Pwyllgor yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Ionawr

Cafodd cyfarfod mis Ebrill ei ganslo gan i gyfyngiadau symud gael eu cyflwyno yn y DU oherwydd y pandemig coronafeirws. Bydd yr adroddiadau'n cael eu cyflwyno yn y cyfarfod cynharaf nesaf.

2.2 Y Flaenraglen Waith

Mae'r Pwyllgor Craffu yn llunio ei Flaenraglen Waith ei hun. Bu'r Pwyllgor yn ymgynghori â swyddogion i nodi eitemau a fydd yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Roedd hyn yn golygu cynnwys eitemau safonol megis adroddiadau monitro perfformiad, cyllideb a chynlluniau gweithredu. Gofynnwyd hefyd am adroddiadau ychwanegol gan yr aelodau yn ystod y flwyddyn a newidiwyd y Flaenraglen Waith yn unol â hynny. At ei gilydd, roedd agendâu'r cyfarfodydd yn gyson â'r rheiny a amlinellwyd yn y Flaenraglen Waith.

Yn sgil ffurfio cysyniad y Flaenraglen Waith, ei datblygu a'r broses ar gyfer cytuno arni, mae modd i bob Pwyllgor Craffu benderfynu ar ei agendâu ei hun. Mae manteision y dull hwn o weithio wedi arwain at wella'r drafodaeth a'r cyfraniadau yn ystod cyfarfodydd y pwyllgorau craffu.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi lle blaenllaw i gynaliadwyedd hirdymor o ran y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu dylunio a'u cyflwyno ac mae'n rhoi pwyslais ar gyrrff cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth â'i gilydd a'r cyhoedd er mwyn atal a mynd i'r afael â phroblemau.

Dyma gyfrifoldebau allweddol y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd:

- Gwasanaethau Cymdeithasol i Bobl Hŷn, gan gynnwys Safonau Maeth
- Oedolion ag Anableddau Dysgu
- Cymorth i Ofalwyr
- Gwasanaethau Iechyd meddwl
- Diogelu Oedolion
- Integreiddio'r Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Gwasanaethau Dementia

Er mwyn ategu'r gwaith a wnaed yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, mae'r Pwyllgor hefyd yn cyflawni swyddogaethau craffu eraill megis Gorchwyl a Gorffen, ymweliadau â sefydliadau a ddaw o fewn ei gylch gwaith ynghyd â sesiynau datblygu i aelodau.

2.3 Monitro Perfformiad / Materion Strategol

Adroddiadau Monitro Perfformiad - Un o rolau pennaf y Pwyllgorau Craffu yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau a ddaw o fewn ei gylch gwaith. Gwnânt y gwaith hwn yn bennaf drwy ystyried adroddiadau monitro perfformiad ac adroddiadau monitro cynlluniau gweithredu amrywiol. Mae'r adroddiadau monitro perfformiad yn rhoi darlun cytbwys o'r perfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol. Cafodd y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yr Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Amcanion Llesiant y Cyngor 2018/19 yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf a mis Medi 2019. Roedd yr adroddiadau'n canolbwyntio ar ddangosyddion tanberfformio yn bennaf.

[Fersiwn Ddrafft o Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2018/19](#) - Fel rhan o'i rôl o fonitro perfformiad, cafodd y Pwyllgor wybodaeth berthnasol am strategaethau a chynlluniau allweddol y Cyngor. Ym mis Gorffennaf 2019, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i fersiwn ddrafft o Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2018/19, a oedd yn cynnwys trosolwg ar berfformiad 2018/19, adroddiadau ynghylch cynnydd pob un o'r 15 amcan llesiant. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am berfformiad data alldro a Chanlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru yn yr atodiadau.

[Adroddiad Blynyddol Drafft Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2018/19](#) - Mae'n ofynnol yn statudol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol adrodd yn flynyddol wrth y Cyngor ar berfformiad yr ystod gyfan o Wasanaethau Cymdeithasol a'r modd y cânt eu darparu, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer eu gwella. Yn wreiddiol, roedd yr adroddiad hwn fod i gael ei gyflwyno yn y cyfarfod craffu ar y cyd â'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Gwasanaethau Plant, ond cafodd y cyfarfod ei ganslo gan Gadeirydd y pwyllgor hwnnw ac fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac lechyd ym mis Gorffennaf.

[Canlyniadau](#)

[Penderfynodd y Pwyllgor y dylai adroddiad ar Oedi wrth Drosglwyddo Gofal gael ei ddarparu.](#)

[Dosbarthwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor ym mis Medi.](#)

[Cynllun Busnes Drafft yr Adran Cymunedau 2020-2023](#) - Ym mis Ionawr bu'r Pwyllgor yn ystyried Cynllun Busnes Drafft yr Adran Cymunedau 2020-2023 a oedd yn manylu ar nodau, amcanion a blaenoriaethau'r adran ar gyfer 2020-23. Rhoddodd hyn gyfle i'r Pwyllgor ystyried y blaenoriaethau a amlinellir ar gyfer yr adran ar gyfer y tair blynedd, a gwneud sylwadau yn eu cylch.

[Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau](#) - Yn ystod blwyddyn y cyngor gwneir sawl cais am eitemau ychwanegol gan aelodau'r Pwyllgor i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl graffu. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am Gamau Gweithredu ac Atgyfeiriadau'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor sy'n darparu diweddariad ynghylch y cynnydd mewn perthynas â'r ceisiadau hyn.

2.4 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

[Adroddiadau Monitro'r Gyllideb](#) - Cafodd y Pwyllgor adroddiadau ynghylch y cyllidebau refeniw a chyfalaf adrannol a chorfforaethol yn y cyfarfodydd ym mis Mai, Gorffennaf, Medi, Tachwedd, Ionawr a Mawrth. Galluogai'r adroddiadau hyn yr aelodau i fonitro'r gwariant ym mhob maes a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf.

[Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2020/22-2023](#)- Yn ogystal â monitro'r gyllideb bresennol, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor hefyd ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2020/22 i 22/23. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r cynigion presennol i'r Pwyllgor ynghylch y Strategaeth Cyllideb Refeniw ar gyfer

2020/21, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2021/22 a 2022/2023.

[Canlyniadau](#)

[Penderfynodd y Pwyllgor y dylid darparu datganiad sefyllfa ynghylch y swyddi gwaith cymdeithasol gwag. Dosbarthwyd y datganiad sefyllfa ym mis Hydref](#)

2.5 Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion
Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad a nodwyd uchod yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ym mis Mai a mis Tachwedd a oedd yn rhoi crynodeb o nifer a math y cwynion a'r ganmoliaeth a gafwyd a'r maes gwasanaeth y maent yn gysylltiedig ag ef.

2.6 Adroddiad Blynyddol ynghylch Diogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) (2018-19)

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf a roddai wybodaeth am rôl, swyddogaethau a gweithgareddau'r Awdurdod o ran Diogelu Oedolion a goblygiadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

2.7 Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru o Wasanaethau Oedolion Hŷn

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a nodwyd uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd, a oedd yn rhoi trosolwg o'r arolygiad a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Roedd yr Arolygiad yn rhoi sylw i ba mor dda yr oedd Cyngor Sir Caerfyrddin â'i bartneriaid yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn atal anghenion rhag cynyddu ymhlith pobl hŷn.

2.8 Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd – Adroddiad Blynyddol 2018/19.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a nodwyd uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi, a oedd, yn unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor, yn rhoi trosolwg o weithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf.

2.9 Rhaglenni Trawsnewid a Gyllidir gan Lywodraeth Cymru yn Sir Gaerfyrddin

Ym mis Tachwedd, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad a roddai drosolwg ar y tair rhaglen gyflawni - Gofal Rhagweithiol trwy gymorth technoleg, Integreiddio Cyflym a Chyson a Chreu Cysylltiadau i Bawb.

2.10 Gwasanaethau a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc sydd â Phroblemau Iechyd Meddwl

Roedd y Pwyllgor i fod i ystyried yr adroddiad uchod yn ei gyfarfod ym mis Ebrill, ond bu'n rhaid ei ganslo oherwydd y coronafeirws. Bydd y mater yn cael ei ystyried yn y cyfnod adrodd nesaf.

2.11 Yr Adroddiadau a'r Wybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdanynt

Yn ystod y flwyddyn, gofynnodd y Pwyllgor am adroddiadau ynghylch y meysydd canlynol i gael eu cynnwys yn y Flaenraglen Waith:-

- Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DTCOC) - derbyniwyd trwy e-bost yn 16/09/2019
- Dadansoddiad o'r Arolwg Sicrhau Ansawdd ar Gartrefi Gofal yr Awdurdod Lleol - derbyniwyd trwy e-bost 31/10/2019
- Demograffeg Pobl Hŷn - derbyniwyd trwy e-bost 06/11/2019
- Rhyddhau i Adfer - llwybrau - derbyniwyd trwy e-bost 23/01/2020

3. Gweithgarwch Craffu Arall

3.1 Gorchwyl a Gorffen

Adolygiad o Effaith Unigrwydd yn Sir Gaerfyrddin

Cymeradwyodd y pwyllgor yr adroddiad uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2019. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Tîm Rheoli Corfforaethol (CMT) ym mis Gorffennaf ac fe'i gymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol ym mis Medi.

Yn anffodus, oherwydd ymadawiad y Pennaeth Gwasanaethau Integredig Dros Dro oedd â chyfrifoldeb am gyflawni'r argymhellion, ni nodwyd unrhyw gynnydd hyd yma. Y gobaith yw y bydd y gwaith yn ailddechrau pan fydd y Pennaeth Gwasanaethau Integredig newydd ei benodi yn ymgymryd â'i swydd.

"Ymyrraeth Gynnar ac Atal Hunanladdiad yn Sir Gaerfyrddin"

Yn Rhag-gyfarfod y Pwyllgor Craffu a gynhaliwyd ym mis Medi 2019, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaethau i nifer o awgrymiadau posibl a chytunwyd i gynnal adolygiad Gorchwyl a Gorffen ar Ymyrraeth Gynnar ac Atal Hunanladdiad yn Sir Gaerfyrddin. Mae aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen fel a ganlyn:

- Y Cynghorydd Gwyneth Thomas (Cadeirydd)
- Y Cynghorydd Ieuan Davies (Is-gadeirydd)
- Y Cynghorydd Emlyn Schiavone
- Y Cynghorydd Dorian Williams
- Y Cynghorydd Louvain Roberts
- Y Cynghorydd Ken Lloyd
- Y Cynghorydd Amanda Fox

Cyfarfu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen 3 gwaith ac oherwydd y pandemig coronafeirws bu'n rhaid canslo 2 gyfarfod arall.

3.2 Sesiynau Datblygu

Cynhaliwyd y sesiynau datblygu / seminarau canlynol i'r holl aelodau yn ystod 2019/20:-

- Hyfforddiant Mod.gov (cynhaliwyd gan Civica) - Mai
- Seminar Bergen Ddinesig Bae Abertawe - Mehefin
- Seminar Llinellau Sirol a Gwrthderfysgaeth - Mehefin
- Seminar Cadwraeth a Bioamrywiaeth - Mehefin
- Seminar Gwyddor Bywyd a Phentref Llesiant - Gorffennaf
- Hyfforddiant Côt Ymddygiad - Gorffennaf
- Canfod Cartref – Gorffennaf
- Digwyddiad Blynyddol Fforwm 50+ SirGâr - Medi
- Cyllideb Ysgolion - Tachwedd
- Seminar Cysylltedd Digidol - Rhagfyr
- Seminar Cynllun Carbon Sero-net - Ionawr
- Llywodraethu a Buddsoddiadau Cronfa Bensiwn Dyfed - Mawrth

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd nifer o seminarau adrannol ynghylch y gyllideb.

Cafodd y Pwyllgor hefyd y diweddariadau / cyflwyniadau canlynol yng nghyfarfodydd datblygu'r Pwyllgor Craffu yn ystod y flwyddyn: -

- Mae Sir Gaerfyrddin yn Garedig (Mehefin)
- Gofal Canolraddol (Medi)
- Strategaeth Cymru Iachach (Medi)
- Diweddariad ar Ofal Parhaus / Uwchgynhadledd y GIG (Medi)
- Bywydau Bodlon (Gofal Cartref/Dementia) - (Rhagfyr)
- Rhagnodi Cymdeithasol (Rhagfyr)
- Cynllun Datblygu'r Gweithlu / Datblygu a Chynnal y Gweithlu - (Rhagfyr)
- Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Bolisi Cynllunio'r Cynllun Datblygu Lleol (Rhagfyr)
- Y Groes Goch - Gwasanaeth Gartref o'r Ysbyty - Mawrth
- Hyfforddiant Ariannol - Mawrth

4. Heriau

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod heriol i'r Cyngor ac mae'r Pwyllgor wedi parhau i chwarae rôl adeiladol wrth graffu ar berfformiad a chyfrannu at bolisïau a phenderfyniadau. Roedd maes Gofal Cymdeithasol ac lechyd dan bwysau sylweddol yn ystod y pandemig Coronaferiws, fodd bynnag, perfformiodd pawb y tu hwnt i'r disgwyliadau i sicrhau bod preswylwyr yn derbyn gofal da.

5. Gwaith yn y Dyfodol

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r Aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i gyflawni proses fwy syml o graffu, er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o amser y cyfarfodydd ynghyd â'r manteision o gynnal rhag-gyfarfodydd.

Bydd gwaith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol yn cael ei ystyried fel rhan o sesiwn gynllunio'r Flaenrhaglen Waith. Bydd y Flaenrhaglen Waith yn parhau i gael ei monitro yn ystod y flwyddyn, ynghyd â Blaenraglen Waith y Bwrdd Gweithredol.

6. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr.

Mae'r cymorth a roddir i'r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:

- Llunio agendâu yn unol â'r Flaenraglen Waith a'u dosbarthu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu o leiaf 4 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod;
- Darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i'r Pwyllgorau Craffu ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- Rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau gweithredol ac anweithredol y Cyngor a'i swyddogion;
- Rheoli datblygiad strategol y swyddogaeth Graffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion gyda'r Bwrdd Gweithredol;
- Rhoi cyngor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- Rheoli cydlynid a datblygiad blaenraglenni gwaith y Pwyllgorau Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu;
- Rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweinyddu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, cynorthwyo i lunio adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd;
- Cynorthwyo â rhaglen datblygu aelodau'r pwyllgorau craffu.

I gael rhagor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys blaenraglenni gwaith, adroddiadau gorchwyl a gorffen ac adroddiadau blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch neges e-bost at craffu@sirgar.gov.uk

7. Presenoldeb

Mae presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn ystod y flwyddyn 2019/20 yn cael ei ddangos yn y tabl isod. Cynhaliwyd 7 cyfarfod gan gynnwys y cyfarfod ar y cyd â Phwyllgor Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2019.

Aelod y Pwyllgor Craffu	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd	%
Y Cynghorydd Sue Allen	7	100
Y Cynghorydd Kim Broom	7	100
Y Cynghorydd Ieuan Wyn Davies	6	86
Y Cynghorydd Karen Davies	5	71
Y Cynghorydd Rob Evans	7	100
Y Cynghorydd Tyssul Evans	7	100
Y Cynghorydd Amanda Fox	4	57
Y Cynghorydd Gary Jones	6	86
Y Cynghorydd Jean Lewis	5	71
Y Cynghorydd Ken Lloyd	5	71
Y Cynghorydd Louvain Roberts	5	71
Y Cynghorydd Emlyn Schiavone	6	86
Y Cynghorydd Gwyneth Thomas	7	100
Y Cynghorydd Dorian Williams	6	86
Dirprwyon	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd	
Y Cynghorydd Deryk Cundy	3	
Y Cynghorydd Jeanette Gilasbey	1	
Y Cynghorydd Susan Phillips	1	
Y Cynghorydd Dorian Phillips	2	
Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd	
Y Cynghorydd Jane Tremlett	3	

Mae presenoldeb yn Sesiynau Datblygu'r Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd i'w weld yn y tabl isod.

Aelod o'r Pwyllgor	10/06/19	24/09/19	17/12/19	05/03/20	Cyfanswm %
Y Cynghorydd Sue Allen	1	1	1	1	100%
Y Cynghorydd Kim Broom	1	1	1	1	100%
Y Cynghorydd Ieuan Wyn Davies	1	1	1	0	75%
Y Cynghorydd Karen Davies	1	1	1	1	100%
Y Cynghorydd Rob Evans	0	0	0	0	0%
Y Cynghorydd Tyssul Evans	1	1	1	1	100%
Y Cynghorydd Amanda Fox	0	0	0	1	25%
Y Cynghorydd Gary Jones	1	1	0	1	75%
Y Cynghorydd Jean Lewis	1	1	1	1	100%
Y Cynghorydd Ken Lloyd	0	1	1	0	50%
Y Cynghorydd Louvain Roberts	0	0	1	0	25%
Y Cynghorydd Emlyn Schiavone	1	0	1	1	75%
Y Cynghorydd Gwyneth Thomas	1	1	0	1	75%
Y Cynghorydd Dorian Williams	1	0	1	1	75%